



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 4 Tachwedd 2013
Tabled on 4 November 2013

Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)
Control of Horses (Wales) Bill

Llyr Huws Gruffydd

7

Section 5, page 2, line 38, after '3(3)', insert 'and, for the purposes of this section, if the local authority has been unable to identify a person to whom notice could be given under section 3(3) (a), notice to a constable alone under section 3(3)(b) is sufficient'.

Adran 5, tudalen 2, llinell 37, ar ôl '3(3)', mewnosoder 'ac, at ddibenion yr adran hon, os yw'r awdurdod lleol wedi methu ag adnabod person y gellid rhoi hysbysiad iddo o dan adran 3(3)(a), mae hysbysiad i gwnstabl yn unig o dan adran 3(3)(b) yn ddigonol'.

Llyr Huws Gruffydd

8

Section 7, page 4, line 1, leave out subsection (3) and insert –

'(3) A statutory instrument containing regulations made by the Welsh Ministers under this section may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by resolution of, the National Assembly for Wales.'

Adran 7, tudalen 4, llinell 1, hepgorer is-adran (3) a mewnosoder –

'(3) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo yn unol â phenderfyniad ganddo.'

Llyr Huws Gruffydd

9

To insert a new section –

[] Guidance

- (1) In the exercise of its functions under this Act, a local authority must have regard to guidance given by the Welsh Ministers.
- (2) The Welsh Ministers may –
 - (a) give guidance either generally or to specified descriptions of local authorities;
 - (b) revise the guidance by giving further guidance under this section;
 - (c) withdraw the guidance by giving further guidance under this section or by notice.
- (3) The Welsh Ministers must publish any guidance or notice under this section.’.

I fewnosod adran newydd –

[] Canllawiau

- (1) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru –
 - (a) rhoi canllawiau yn gyffredinol neu i ddisgrifiadau penodedig o awdurdodau lleol;
 - (b) diwygio’r canllawiau drwy roi canllawiau pellach o dan yr adran hon;
 - (c) tynnu’r canllawiau yn ôl drwy roi canllawiau pellach o dan yr adran hon neu drwy hysbysiad.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau neu hysbysiad o dan yr adran hon.’.

Llyr Huws Gruffydd

10

To insert a new section –

[] Costs incurred by third parties

The Welsh Ministers must, within twelve months of Royal Assent, lay before the Assembly a report on the recovery of the costs incurred by individuals and organisations, other than local authorities in the implementation of this Act, because of horses which –

- (a) are in public places without lawful authority, or
- (b) are on other land without the consent of the occupier of the land.’.

I fewnosod adran newydd –

[] Costau a dynnir gan drydydd partïon

Rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn deddeung mis i’r Cydsyniad Brenhinol, osod gerbron y Cynulliad adroddiad ar adennill y costau a dynnwyd gan unigolion a sefydliadau, heblaw am awdurdodau lleol, wrth roi’r Ddeddf hon ar waith, oherwydd ceffylau sydd–

- (a) mewn mannau cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon, neu
- (b) ar dir arall heb ganiatâd meddiannydd y tir.’.